newyddion **UCU** University and College Union / Undeb Prifysgol a Choleg Cymru news

## Cylchlythyr Ymgyrch Rhif 1
## Gormod o Waith a Dim Digon o Gyflog

Bydd aelodau'r Undeb Prifysgolion a Cholegau yn falch o glywed bod eich cynrychiolwyr wedi cytuno mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sector Addysg Bellach ar 21 Hydref 2017 i ddechrau anghydfod â chyflogwyr yng Nghymru. Gwnaethant hefyd gytuno i drafod y canlyniad hwn gyda grŵp y cyd-undebau llafur sy'n trafod gyda ColegauCymru (CC) i sicrhau, lle y bo'n bosibl, bod Undeb Prifysgolion a Cholegau yn gallu gweithredu ar y cyd ag undebau eraill. Mae natur gyfunol ein perthynas ag undebau eraill yng Nghymru wedi ein galluogi i wneud cynnydd sylweddol er mwyn sicrhau bod ein haelodau yn cael budd.

**Pam y penderfynwyd ar hyn?**

Mae'n amlwg o'r gwaith a wnaed gan yr Undeb Prifysgolion a Cholegau a'r Llywodraeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bod problem sylweddol yn ymwneud â llwyth gwaith darlithwyr yn y rhan fwyaf o golegau yng Nghymru. Cafwyd erfyniadau gan gynrychiolwyr yn ystod y cyfarfod i fynd i'r afael â'r mater ac i alluogi aelodau i fynegi eu dicter tuag at y cynnydd parhaus mewn rheolwriaeth a ffocws y llywodraeth ar gasglu data, gan fod hyn yn cael effaith negyddol ar addysgeg a gallu staff i ddarparu addysg o safon i'w myfyrwyr.

Clywodd y cynrychiolwyr hefyd fod y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) yn argymell cynnydd o 2% yng nghyflog pobl

## Campaign Newsletter No.1
## Overworked and Underpaid

UCU members will be pleased to note that your representatives agreed at the FESC meeting on 21 October 2017 to move into dispute with the employers in Wales. They also agreed to discuss this result with the joint trade union group that negotiates with ColegauCymru (CC) to ensure, where possible, that UCU is able to take action in conjunction with other unions. It is the collective nature of our relationship with the other unions in Wales which has allowed us to make significant progress in achieving gains for our members.

**Why was this decision taken?**

It is patently obvious from the work undertaken in the last two years, by UCU and Government, that there is a significant problem with the lecturers' workload in most colleges in Wales. The meeting heard the pleas of representatives to address this issue now and allow members to voice their anger at the continual increase in managerialism and the governments' focus on data collection, resulting in a negative impact on pedagogy and the ability of staff to deliver quality education for their students.

Representative also heard that the School Teachers Review Body (STRB) recommended a 2% pay increase on the top and bottom of the scales. We understand that in Wales, this

sydd ar frig ac ar waelod y graddfeydd. Deallwn y bydd yr argymhelliad hwn yn golygu cynnydd o 2% ar bob pwynt graddfa i athrawon yng Nghymru. Fel y gwyddoch, mae ColegauCymru wedi argymell bod colegau'n talu 1% yn ernes a deallwn fod rhai aelodau o bosibl wedi derbyn cynnydd y hwnnw yn eu pecynnau cyflog yn barod. Os caiff y cynnig cyflog o 1% ei dderbyn gan yr aelodau, bydd hyn yn golygu **DIWEDD AR GYFLOG CYFARTAL AG ATHRAWON.**

Yn ystod eu cyfarfod â ColegauCymru ar 13 Hydref, gofynnodd y Cyd-Undebau Llafur iddynt ddychwelyd at y Llywodraeth i drafod argymhelliad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol ac i ystyried yr effaith a gaiff ar gyflog cyfartal; rydym yn aros am eu hymateb â diddordeb. Deallwn i swyddogion y llywodraeth gynghori colegau i gyllidebu am ddyfarniad cyflog o 1%, gan feddwl y byddai'r cap ar gyflog yn parhau i fod ar swyddi yn y sector cyhoeddus. Gwyddom fod y cap yn cael ei ddileu mewn sectorau penodol h.y. Swyddogion yr Heddlu & Swyddogion Carchardai

Bydd aelodau'n ymwybodol ein bod wedi bod yn cadarnhau cyfeiriadau e-bost gyda chi dros yr haf er mwyn sicrhau bod gennym eich dewis gyfeiriad e-bost cywir ar ein system aelodaeth. Mae deddfwriaeth undeb llafur newydd yn ei gwneud yn ofynnol bod o leiaf 50% o'r aelodau yn pleidleisio mewn unrhyw bleidlais. Mae gan Undeb Prifysgolion Cymru dystiolaeth sy'n arddangos fod y rhan fwyaf o gyfeiriadau e-bost yn gywir gennym.

**HELPWCH NI I'CH HELPU CHI I DDIOGELU A GWELLA EICH TELERAU**

recommendation will result in a 2% increase across all scales points for teachers. As you know CC have already recommended to colleges that they pay the 1% on account and we understand that some members may have already received that increase in their pay packets. If the 1% pay offer is accepted by members it will mean an **END TO PAY PARITY WITH TEACHERS.**

The JTUs at their meeting with CC on 13 October asked them to go back to government and discuss the STRB recommendation and consider the impact for pay parity; we await their response with interest. We understand that the government officials advised colleges to budget for a 1% pay award, believing that the pay cap would remain on public sector jobs. We now know that the cap is being removed in certain sectors i.e. Police Officers & Prison Officers.

Members will be aware that we have been checking email addresses with you over the summer to ensure that we have your correct preferred email address on our membership system. New Trade Union legislation requires at least 50% of the membership to vote in any ballot. UCU now has the evidence that demonstrates that we do have the majority of emails accurate.

**PLEASE HELP US TO HELP YOU PROTECT AND IMPROVE YOUR TERMS AND CONDITIONS**.
Use this link:
https://ucu.custhelp.com/app/utils/login_form to log into the new members portal and **CHECK THE DATA WE HOLD** and amend it if needed. This exercise is crucial to ensure that we can deliver industrial

**AC AMODAU**.
Defnyddiwch y ddolen hon **https://ucu.custhelp.com/ap/utils/login_form** i fewngofnodi i borth newydd i'r aelodau a **GWIRIWCH Y DATA SYDD GENNYM** a'i ddiwygio os oes angen. Mae'r ymarfer hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallwn weithredu'n ddiwydiannol os oes angen.

Os byddwch yn cael unrhyw broblemau wrth fewngofnodi, cysylltwch â Karen ar 01656 721951 neu **kwilliams@ucu.org.uk**

Byddwn yn cyhoeddi cylchlythyr ymgyrch wythnosol i sicrhau fod aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ei hynt.

action should we need to.

If you have any problems logging in please contact Karen on 01656 721951 or **kwilliams@ucu.org.uk**

We will be producing a weekly campaign newsletter to keep members informed of progress.